
## Gwella Addysg a Sgiliau



Mae Cyngor Abertawe'n bwriadu adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer YGG Tirdeunaw ar dir sydd ar hyn o bryd yn rhan o YGG Bryntawe, Heol Gwyrosydd, Penlan Abertawe.

Byddai'r cyfleuster newydd hwn, a fydd yn addas at ddibenion dysgu ac addysgu yn yr 21ain ganrif, yn disodli safle presennol YGG Tirdeunaw ar Heol Ddu, Mynydd-bach.

Mae mwy o fanylion am y cynnig a sut gallwch gyflwyno'ch barn yn y daflen hon neu gallwch fynd i'n gwefan yn:

www.abertawe.gov.uk/prosiectYGGTirdeunaw

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

### YGG Tirdeunaw

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yw YGG Tirdeunaw, ac ar hyn o bryd mae 420 o leoedd amser llawn a 60 o leoedd meithrin yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r adeilad, sy'n rhan o hen adeilad Ysgol Uwchradd Daniel James, yn addas ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion erbyn hyn.

Cynhaliwyd proses ymgynghori statudol i gynyddu maint yr ysgol er mwyn darparu 525 o leoedd amser llawn a 75 o leoedd meithrin, a darparu adeilad addas ar gyfer y disgyblion a'r staff.

### Ein nod

Amcan cyffredinol y prosiect hwn yw darparu safle newydd sy'n addas at ddibenion dysgu ac addysgu'r 21ain ganrif a chynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.

### Manteision addysg

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn:

- Creu cyfleusterau dysgu ac addysgu o safon i 525 o ddisgyblion amser llawn
- Creu darpariaeth feithrin addas ar y safle
- Darparu darpariaeth addas ar gyfer cyfleuster Dechrau'n Deg a fydd yn cynnig 24 o leoedd cyn-ysgol i blant 2 flwydd oed.
- Sicrhau bod disgyblion yn elwa o ystafelloedd dosbarth sy'n agor yn uniongyrchol i ardaloedd dysgu a chwarae awyr agored
- Darparu ystafelloedd dosbarth o faint addas sy'n darparu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer ysgol yn yr 21ain ganrif.

### Y cynnig dylunio

Y cynnig yw adeiladu ysgol gynradd ddeulawr ag ardal chwarae cysylltiedig. Fel rhan o'r datblygiad ysgol newydd, byddai cyfleusterau parcio mwy addas i staff a rhieni hefyd yn cael eu creu a bydd gwelliannau i’r trefniadau traffig, a fydd yn fantais ychwanegol i ysgol bresennol YGG Bryntawe a'r gymuned sy'n defnyddio safle'r ysgol ym Mhenlan.

### Manteision i'r gymuned

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i gefnogi cwmnïau lleol a chreu swyddi i bobl leol. Yn ystod y gwaith arfaethedig, bydd y cyngor yn defnyddio cyflenwyr lleol, lle y bo'n bosib, ar gyfer y deunyddiau a'r cynnyrch.

Caiff contractwyr eu hannog i gyflogi gweithwyr lleol a chynnig profiad gwaith i bobl ifanc ddi-waith.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

I ddysgu mwy am y cynnig ar gyfer y cyfleuster newydd, dewch i un o'n digwyddiadau gwybodaeth i'r gymuned.

- Dydd Llun 1 a dydd Mawrth 2 Ebrill
  2.30pm – 4.30pm
  Lleoliad: YGG Tirdeunaw

- Nos Fercher 3 Ebrill
  5.30pm - 8pm
  Lleoliad: YGG Bryn Tawe

Os bydd angen gwybodaeth arnoch mewn fformat arall, ffoniwch: Yr Uned Gwasanaethau Addysg ar **01792 636094** neu e-bostiwch **addysg@abertawe.gov.uk**